**Y Pwyllgor Diwylliant – CC 14-01(p.3)**

**Dyddiad:** 19 Gorffennaf 2001

**Amser:** 14.00 - 16.30

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

## Diben

1. I hysbysu'r Pwyllgor ar gynnydd y broses o baratoi Cynllun Iaith Gymraeg newydd, a cheisio sylwadau'r Pwyllgor ar fersiwn ddrafft ddiweddaraf y Cynllun.

### Is-grwp y Pwyllgor

2. Mae'r is-grwp a sefydlwyd gan y Pwyllgor (sy'n cynnwys Owen John Thomas, Rosemary Butler a minnau) wedi bod yn goruchwylio gwaith swyddogion ar ddrafftio'r cynllun newydd. Yr ydym wedi cyfarfod deirgwaith (ar 2 Ebrill, 30 Ebrill a 21 Mai). Yn sgil hynny yr ydym wedi gloywi llawer o fanylion o safbwynt y testun yn ogystal â gyrru'r broses yn ei blaen. Mae swyddogion wedi bod ar drywydd y pwyntiau a godwyd gennym drwy ymgynghori ag is-adrannau perthnasol y Cynulliad a newid testun y cynllun fel y bo'n briodol.

3. Mae cofnodion cyfarfodydd yr Is-grwp ar gael i unrhyw Aelod sydd â diddordeb yn eu gweld.

### Sefyllfa'r Cynllun erbyn hyn

4. Mae'r drafft a saif ar hyn o bryd yn un tra datblygedig sy'n ffrwyth cryn dipyn o waith a wnaed gan swyddogion. Serch hynny mae'r gwaith yn dal i fynd yn ei flaen.

5. Mae pob is-adran yn y Cynulliad wedi cael cyfle i wneud sylwadau ar y testun drafft yn llawn. Mae rhyw 25 is-adran wedi rhoi sylwadau manwl ar ystod eang o agweddau ar nodweddion ymarferol y cynllun. Bydd angen i'm swyddogion ystyried y rhain a dod i benderfyniad ynghylch y manylion a godwyd ledled y Cynulliad. Ymdrinnir â'r gwaith hwnnw yn ystod y toriad. Mae yna ymrwymiad calonogol iawn i'r iaith Gymraeg ar bob lefel o'r gwasanaeth sifil ledled y Cynulliad, ac mae yna ddymuniad cyffredinol i gynhyrchu'r cynllun gorau posibl. Cafodd Delyth Evans a minnau drafodaeth eithriadol o

gadarnhaol ynghylch hyn oll gydag Ysgrifennydd Parhaol y Cynulliad ar 18 Mehefin.

6. Mae dibyniad y sefydliad ar y Gwasanaeth Cyfieithu i ddarparu gwasanaethau dwyieithog i'r cyhoedd ac i Aelodau yn fater allweddol sy'n wynebu'r Cynulliad. Nid oes ateb syml i hyn, ond mae uwch-swyddogion y gwasanaeth sifil yn llwyr gydnabod yr angen i fynd i'r afael â'r materion darparu sy'n gysylltiedig â'r ymrwymiadau a nodir yn y cynllun drafft hwn.

7. Mae trafodaethau yn parhau gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Mae swyddogion y Bwrdd yn teimlo bod ein cynllun wedi datblygu dipyn erbyn hyn ac maent yn canmol llawer o'r hyn sydd wedi'i gynnwys ynddo.

**Swyddfa'r Llywydd**

8. Nid yw'r Cynllun sydd o'ch blaenau yn cynnwys gwaith Swyddfa'r Llywydd. Yr ydym yn ymgynghori â Swyddfa'r Llywydd ynghylch eu trefniadau hwy.

**Y Camau Nesaf**

9. Rwy'n rhagweld y byddaf mewn sefyllfa ar ôl y toriad i geisio'ch cytundeb i gyflwyno'n cynllun yn ffurfiol gerbron Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

10. Yn dilyn hynny, bydd Bwrdd yr Iaith, pan fydd yn fodlon, yn rhoi awdurdod i ni fwrw ati i ymgynghori â'r cyhoedd ynghylch ein cynllun.